TAG UG A SAFON UWCH ASTUDIAETHAU'R CYFRYNGAU

Crynodeb o'r penderfyniadau a dadansoddiad o'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddiwygio TAG UG a Safon Uwch Astudiaethau'r Cyfryngau i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2017

Crynodeb o'r penderfyniadau a dadansoddiad o'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddiwygio TAG, UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau i'w haddysgu am y tro cyntaf yn 2017

Crynodeb Gweithredol

Rhwng 4 Ebrill a 15 Mai 2016, ymgynghorodd Cymwysterau Cymru ar gynigion ar gyfer cymwysterau TAG, UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau i'w Cymeradwyo i'w haddysgu am y tro cyntaf yng Nghymru o fis Medi 2017. Mae copi o gynigion a chwestiynau'r ymgynghoriad ar gael yn linc yma.

Ym mis Gorffennaf 2016, gwnaethom gyhoeddi *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau* (2016)[1], a nododd y gofynion manwl ar gyfer sut y dylid dylunio ac asesu'r cymwysterau diwygiedig. Caiff y gofynion eu llywio gan yr ymatebion i'n hymgynghoriad ar-lein a chan safbwyntiau a fynegwyd gan ddysgwyr drwy ymarfer ymgysylltu ategol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad ar y cynigion ac yn egluro'r penderfyniadau a wnaed gennym o ystyried yr ymatebion hyn, a adlewyrchir yn y *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau (2016)*[1].

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae sylwadau wedi cael eu cyfieithu, lle bo'n briodol, yn unol â iaith yr adroddiad.

Mae canrannau yn yr adroddiad hwn wedi cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

Cefndir

Caiff cymwysterau UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau eu diwygio yng Nghymru i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2017, fel rhan o raglen ehangach o ddiwygiadau i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Yr unig gorff dyfarnu a fydd yn datblygu ac yn cynnig y cymhwyster UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru fydd CBAC, gan mai dyma'r unig gorff dyfarnu sydd wedi cytuno i ddatblygu cymwysterau UG a Safon Uwch diwygiedig wedi'u cynllunio'n benodol i'w dyfarnu yng Nghymru.

Datblygwyd y cynigion y gwnaethom ymgynghori arnynt drwy ymgysylltu â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys corff dyfarnu CBAC, ysgolion a sefydliadau addysg bellach (SABau), sefydliadau addysg uwch (SAUau) a Llywodraeth Cymru.

[1] Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer UG a Safon Uwch

Crynodeb o'r cynigion a'r penderfyniadau

Nodau ac amcanion

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi gwneud nifer o ddiwygiadau i nodau ac amcanion y cymhwyster UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau.

Cynnwys

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'r cynnwys pwnc arfaethedig sy'n cynnwys y canlynol:

- dileu cyfryngau ar-lein, cymdeithasol a chyfranogol o'r ffurfiau gofynnol ar y cyfryngau.
- ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr astudio tair ffurf gyferbyniol ar y cyfryngau yn fanwl, gydag un wedi'i phennu gan y corff dyfarnu.
- ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr astudio o leiaf un cynnyrch Cymraeg neu Saesneg ac un cynnyrch nad yw'n Gymraeg/Saesneg.

Amcanion asesu

Rydym wedi gwneud nifer o ddiwygiadau i amcanion asesu a phwysoliadau'r cymhwyster UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau.

Asesu

Yn fras, rydym wedi cadw'r methodolegau asesu arfaethedig yn y cymhwyster UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cwblhaodd cyfanswm o 8 ymatebwr yr ymgynghoriad ar-lein cyfan, neu ran ohono, ar gyfer UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau. O'u plith, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn athrawon neu'n ddarlithwyr a nododd dau ymatebwr eu bod yn perthyn i'r categori 'arall'.

Nodau ac amcanion pwnc

Ar gyfer y cymhwyster UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau, gwnaethom gynnig y nodau a'r amcanion pwnc canlynol:

Rhaid i fanylebau UG a Safon Uwch mewn astudio'r cyfryngau annog dysgwyr i wneud y canlynol:

- *gwella eu mwynhad a'u gwerthfawrogiad o'r cyfryngau a'u rôl yn eu bywydau bob dydd;*
- *meithrin dealltwriaeth feirniadol o'r cyfryngau drwy ymwneud â chynnyrch a chysyniadau'r cyfryngau a thrwy gymhwyso sgiliau ymarferol mewn ffordd greadigol;*
- *ystyried prosesau cynhyrchu, technolegau a chyd-destunau perthnasol eraill;*
- *dod yn annibynnol o ran eu sgiliau ymchwilio a'u gallu i roi'r sgiliau hynny ar waith, yn eu gwaith ymarferol ac wrth ddatblygu eu safbwyntiau a'u dehongliadau eu hunain.*

Mae'n ofynnol i ddysgwyr wneud y canlynol:

- *dadansoddi cynnyrch y cyfryngau;*
- *gwerthuso eu gwaith eu hunain;*
- *gwerthuso damcaniaethau academaidd.*

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

C1: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r nodau pwnc arfaethedig ar gyfer y cymhwyster UG a Safon Uwch newydd mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

Fel y dangosir yn Siart 1 isod, roedd 88% o'r rheini a ymatebodd i gwestiwn 1 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'n cynnig ac roedd 13% yn anghytuno'n gryf.

Siart 1. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 1 yr ymgynghoriad ar gymwysterau UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau.



- Nododd un ymatebwr a oedd yn cytuno â'r cynnig fod y cynnig yn "addawol ond bod rhai agweddau yn peri pryder o hyd a bod angen myfyrio arnynt".
- Nododd ymatebwr a oedd yn anghytuno â'r cynnig ei fod "yn amhriodol o heriol ac nid yw'n gydnaws â'r gofynion ar gyfer Lloegr".

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi gwneud nifer o ddiwygiadau i'r nodau a'r amcanion pwnc. O ganlyniad, mae'r nodau a'r amcanion pwnc a adlewyrchir yn y *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau* (2016)[1] fel a ganlyn:

- *Rhaid i fanylebau UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:*
    - *deall perthnasedd ac effaith y cyfryngau a'u rôl yn eu bywydau bob dydd;*
    - *dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o natur fyd-eang y cyfryngau;*
    - *meithrin sgiliau ymholi, dealltwriaeth feirniadol a'r gallu i ddadansoddi'r cyfryngau drwy ymwneud â chynnyrch a chysyniadau'r cyfryngau a thrwy gymhwyso sgiliau ymarferol mewn ffordd greadigol;*
    - *ystyried a deall cyd-destunau perthnasol y cyfryngau;*
    - *meithrin dealltwriaeth o'r cydberthnasau dynamig a newidiol rhwng ffurfiau, cynnyrch, diwydiannau a chynulleidfaoedd y cyfryngau;*
    - *dod yn fwy annibynnol wrth ymchwilio, creu gwaith ymarferol a ffurfio eu barn a'u dehongliadau eu hunain;*
    - *dadansoddi a chymhwyso safbwyntiau beirniadol at gynnyrch y cyfryngau;*
    - *gwerthuso eu gwaith ymarferol eu hunain.*

Cynnwys pwnc

Damcaniaethau a Damcaniaethwyr

Gwnaethom gynnig fod angen cynnwys damcaniaethau o fewn y cynnwys pwnc ar gyfer y cymhwyster UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau, ond, na ddylid rhagnodi'r damcaniaethwr i'w astudio ochr yn ochr â phob damcaniaeth ac y dylid ei gynnwys fel cynnwys dangosol.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

C2a: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai'r cynnwys pwnc ar gyfer cymhwyster Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys damcaniaethau rhagnodedig?

Fel y dangosir yn Siart 2 isod, roedd 29% o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig ac roedd 71% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Siart 2. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 2a yr ymgynghoriad ar gymwysterau UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau.



- Nododd un ymatebwr a oedd yn cytuno â'r cynnig bod "cyd-destun hanesyddol yn bwysig".
- Nododd un ymatebwr a oedd yn anghytuno'n gryf â'r cynnig y canlynol:

> 'Mae'n dod yn anodd iawn addysgu pan gaiff y fframwaith damcaniaethol ei ragnodi. Rwy'n cytuno'n gryf y dylai athrawon addysgu damcaniaeth ond yn anghytuno'n gryf y dylid gorchymyn y damcaniaethau a'r fframwaith damcaniaethol'.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi newid damcaniaethau rhagnodedig i safbwyntiau beirniadol er mwyn sicrhau gwell eglurder ac adlewyrchir hyn yn y *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Astudiaethau'r Cyfryngau (2016)*[1].

O ran damcaniaethwyr rhagnodedig, gofynnom:

C2b: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno na ddylai'r cynnwys pwnc ar gyfer cymhwyster Safon Uwch mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys damcaniaethwyr rhagnodedig ar gyfer pob damcaniaeth ac y dylid eu cynnwys yn y cynnwys dangosol?

Fel y dangosir yn Siart 3 isod, roedd 43% o ymatebwyr yn cytuno'n gryf â'r cynnig ac roedd 57% yn cytuno.

Siart 3. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 2b yr ymgynghoriad ar gymwysterau UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau.



- Nododd ymatebwr a oedd yn cytuno'n gryf â'r cynnig fod "rhagnodi damcaniaethwyr yn achosi problemau mawr".

Mae'r ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau (2016)*[1] yn adlewyrchu'r cynnig a barn ymatebwyr.

Ffurfiau'r cyfryngau

Ar gyfer y cymhwyster UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau, gwnaethom gynnig y dylai'r cynnwys pwnc ymdrin â'r ffurfiau canlynol ar y cyfryngau:

- teledu
- ffilm
- radio
- papurau newydd
- cylchgronau
- hysbysebu a marchnata
- cyfryngau ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau cyfranogol
- gemau fideo
- fideos cerddoriaeth

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

C3a: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i ddysgwyr astudio'r holl ffurfiau arfaethedig ar y cyfryngau drwy gydol eu hastudiaethau?

Fel y dangosir yn Siart 4 isod, roedd 50% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig ac roedd 33% yn anghytuno. Nid oedd 17%o ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno.

Siart 4. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 3a yr ymgynghoriad ar gymwysterau UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau.



Nododd dau ymatebwr a oedd yn anghytuno â'r cynnig y dylid astudio llai o ffurfiau, gydag un ymatebwr yn nodi'r canlynol:

> 'Mae gormod o ffurfiau yma i ymdrin â nhw'n briodol o fewn cwrs blwyddyn o hyd...Byddai'n well astudio llai o ffurfiau yn fanylach, gan gynnwys o bosibl rhyw elfen o ddewis o'r rhestr gyffredinol'.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu dileu 'cyfryngau ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau cyfranogol' o'r rhestr o ffurfiau gofynnol gan eu bod yn llwyfan i nifer o'r ffurfiau eraill a ragnodir. Adlewyrchir hyn yn y ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau (2016)*[1].

C3b: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai'r ffurfiau ar y cyfryngau gynnwys safbwynt Cymreig lle y bo'n briodol?

Fel y dangosir yn Siart 5 isod, roedd 67% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig ac roedd 33% o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig.

Siart 5. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 3b yr ymgynghoriad ar gymwysterau UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau.



- Cyflwynodd dau ymatebwr a oedd yn cytuno â'r cynnig sylwadau ar yr angen am hyblygrwydd, gan nodi:
  - "Unwaith eto, mae angen i hyn fod yn hyblyg yn hytrach nag yn rhagnodol"
  - "Cytunaf ond credaf mai'r ymadrodd allweddol, wrth reswm, yw lle y bo'n briodol"
  - "Yn bendant, dylid sicrhau bod safbwynt Cymreig yn ofynnol i raddau ond nid mewn perthynas â phob ffurf ar y cyfryngau"
- Nododd un ymatebwr a oedd yn anghytuno â'r cynnig "y bydd yn anodd dod o hyd i enghreifftiau priodol o rai ffurfiau sy'n cynnwys safbwynt Cymreig a bydd hyn yn cyfyngu ar yr opsiynau astudio".

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi newid y gofyniad y dylai ffurfiau'r cyfryngau gynnwys safbwynt Cymreig lle y bo'n briodol, i nodi bod yn rhaid i ddysgwyr astudio un o gynhyrchion y cyfryngau sy'n cynnwys safbwynt Cymreig fel rhan o'u cwrs astudio. Adlewyrchir hyn yn y ddogfen *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Astudiaethau'r Cyfryngau (2016)*[1].

Cynhyrchion y Cyfryngau

Gwnaethom gynnig y dylai'r cymhwyster UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr astudio o leiaf un ffurf

sain/gweledol, un ffurf print ac un ffurf ar-lein ar y cyfryngau yn fanwl drwy gynhyrchion y cyfryngau cyferbyniol a bennwyd gan y corff dyfarnu; hefyd y dylid rhoi dewis o gynhyrchion y cyfryngau i ddysgwyr ei astudio.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

C4a: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai cynnwys pwnc Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys cynhyrchion gosod ac astudio o leiaf un ffurf sain/gweledol, un ffurf print ac un ffurf ar-lein ar y cyfryngau yn fanwl?

Fel y dangosir yn Siart 6 isod, roedd 67% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig ac roedd 33% o ymatebwyr yn anghytuno'n gryf.

Siart 6. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 4b yr ymgynghoriad ar gymwysterau UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau.



- Nododd un ymatebwr a oedd yn cytuno â'r cynnig "...ei bod yn beth da i fyfyrwyr astudio testunau yn fanwl".
- Nododd un ymatebwr a oedd yn anghytuno'n gryf â'r cynnig "ei bod yn bosibl pennu cynhyrchion ar gyfer rhai ffurfiau (e.e. teledu), ond bod problemau go iawn wrth geisio pennu cynhyrchion ar gyfer ffurfiau print ac ar-lein".

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu ar lefel UG ac A2, bod yn rhaid ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr astudio tair ffurf gyferbyniol ar y cyfryngau yn fanwl. Ar gyfer un o'r ffurfiau hyn, rhaid i gynnyrch y cyfryngau gael ei bennu gan y corff dyfarnu. Adlewyrchir hyn yn y ddogfen *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Astudiaethau'r Cyfryngau (2016)*[1].

C4b: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys y gofyniad bod cynhyrchion y cyfryngau yn cynnwys amrywiaeth o strwythurau, ffurfiau, cyfnodau hanesyddol a chynulleidfaoedd bwriadedig?

Fel y dangosir yn Siart 7 isod, roedd 83% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig ac roedd 17% yn anghytuno'n gryf.

Siart 7. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 4b yr ymgynghoriad ar gymwysterau UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau.



- Nododd un ymatebwr a oedd yn anghytuno'n gryf â'r cynnig "na ddylai fod yn ofynnol mewn unrhyw ffordd astudio un cynnyrch cyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn gyfyngol iawn ac yn cyfyngu'n ddifrifol ar y cynhyrchion y gellid eu pennu."

Mae'r ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau (2016)*[1] yn adlewyrchu'r cynnig a barn y rhan fwyaf o ymatebwyr.

C4c: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys y gofyniad bod o leiaf un cynnyrch cyfrwng Cymraeg, un cynnyrch cyfrwng Saesneg ac un cynnyrch nad yw'n Gymraeg/Saesneg yn cael ei astudio?

Fel y dangosir yn Siart 8 isod, roedd 17% o ymatebwyr yn cytuno'n gryf â'r cynnig ac roedd 50% o ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Nid oedd 33% o ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig.

Siart 8. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 4b yr ymgynghoriad ar gymwysterau UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau.



- Nododd un ymatebwr nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig ei fod "yn cytuno'n llwyr bod yn rhaid sicrhau safbwynt Cymreig; rwyf yn cytuno y dylai myfyrwyr astudio testun nad yw'n Gymraeg/Saesneg ond - ni waeth beth a wnawn - mae gormod o fyfyrwyr yn ei chael hi'n anodd astudio testun iaith Gymraeg".
- Nododd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r datganiad "Credaf y bydd hyn yn anodd iawn mewn rhai achosion ac yn gyfyngol. Byddai dimensiwn Cymreig neu safbwynt diwylliannol yn fwy ymarferol".

Rydym wedi myfyrio ar hyn ac o ganlyniad, gyda'i gilydd, rhaid i fanylebau UG ac A2 mewn Astudio'r Cyfryngau ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr astudio o leiaf un cynnyrch Cymraeg neu Saesneg ac un cynnyrch nad yw'n Gymraeg/Saesneg. Adlewyrchir y gofyniad hwn yn y ddogfen *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau (2016)*[1].

Amcanion Asesu

Cynigiodd Cymwysterau Cymru yr amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol ar gyfer y cymhwyster UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau:

	Amcan asesu	Pwysoliad
AA1	Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol: • cysyniadau damcaniaethol astudio'r cyfryngau • cyd-destunau'r cyfryngau a'u dylanwad ar gynnyrch a phrosesau'r cyfryngau.	30%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o fframwaith cysyniadol astudiaethau'r cyfryngau er mwyn: • dadansoddi cynhyrchion y cyfryngau, gan gynnwys mewn perthynas â'u cyd-destunau, gan ddefnyddio damcaniaethau academaidd • gwerthuso eu gwaith ymarferol eu hunain.	35%
AA3	Ymchwilio, datblygu a chreu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa fwriadedig, drwy gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o fframwaith cysyniadol astudiaethau'r cyfryngau i gyfleu ystyr.	35%

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol

C5: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig ar gyfer Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

Fel y dangosir yn Siart 9 isod, roedd 50% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, roedd 33% o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig ac nid oedd 17% yn cytuno nac yn anghytuno.

Siart 9. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 5 yr ymgynghoriad ar gymwysterau UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau.



- Nododd un ymatebwr a oedd yn cytuno â'r cynnig ei fod "yn cytuno'n fras ond bod angen newid geiriad AA2".
- Nododd un ymatebwr a oedd yn anghytuno â'r cynnig "y dylid gwerthfawrogi gwaith cwrs a gwaith grŵp yn fwy".
- Nododd ymatebwr nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig "y byddai rhaniad 60:40 yn well".

Rydym wedi gwneud nifer o fân ddiwygiadau i eiriad yr amcanion asesu. Gwnaed y diwygiadau hyn er mwyn gwella eglurder y geiriad ac er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod damcaniaethau wedi'u newid i safbwyntiau beirniadol. Mae'r amcanion asesu diwygiedig fel a ganlyn:

AA1 Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- cysyniadau allweddol a safbwyntiau beirniadol astudiaethau'r cyfryngau; ac
- ar lefel A2, cyd-destunau'r cyfryngau a'u dylanwad ar gynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau.

AA2 Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau allweddol astudiaethau'r cyfryngau er mwyn:

- dadansoddi cynhyrchion y cyfryngau, ac ar lefel A2, mewn perthynas â'u cyd-destunau, gan ddefnyddio safbwyntiau beirniadol fel y bo'n briodol;
- gwerthuso eu gwaith ymarferol eu hunain.

AA3 Ymchwilio, datblygu a chreu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa fwriadedig, gan gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o fframwaith cysyniadol astudiaethau'r cyfryngau.

Asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Gwnaethom gynnig y dylid pennu pwysoliad o 40% a 60%, y naill rhwng asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau a'r llall drwy arholiadau, ar gyfer Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

> ***C6: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r cynnig i gadw asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau ar gyfer Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?***

Fel y dangosir yn Siart 10 isod, roedd 67% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig ac nid oedd 33% o ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno.

Siart 10. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 6 yr ymgynghoriad ar gymwysterau UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau.



- Nodwyd y canlynol gan ymatebwyr a oedd yn cytuno'n gryf â'r cynnig:
    - "Mae hyn yn hanfodol ar gyfer y cyfryngau ar safon UG ac A2"
    - "Asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau yw'r unig ffordd ddilys o asesu rhai o sgiliau craidd y pwnc hwn".
- Nododd ymatebwr nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig "Byddai'n well gennyf gadw'r cydbwysedd o 50% ond credaf fod 40% / 60% yn debygol o fod yn dderbyniol".

Mae'r ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau (2016)*[1] yn adlewyrchu'r cynnig a barn y rhan fwyaf o ymatebwyr.

Gwnaethom gynnig y gofynion canlynol ar gyfer elfennau asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau'r cymhwyster UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau:

Cymhwyster	Gofynion posibl i Gymru
Safon UG	Un cynhyrchiad cyfryngol, a chaiff gwaith ymchwil, datblygu a myfyrio'r unigolyn ei asesu, gan gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau damcaniaethol astudiaethau'r cyfryngau. Caiff briffiau eu pennu gan y corff dyfarnu a'u hadolygu bob blwyddyn.
Safon Uwch	Un cynhyrchiad trawsgyfryngol, a chaiff gwaith ymchwil, datblygu a myfyrio'r unigolyn ei asesu, gan gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau damcaniaethol astudiaethau'r cyfryngau a natur ddigidol gydgyfeiriol y cyfryngau cyfoes. Caiff briffiau eu pennu gan y corff dyfarnu a'u hadolygu bob blwyddyn.

Nodyn: Roedd tabl anghywir yn y cwestiwn ymgynghori TAG UG a Safon Uwch am astudiaethau'r cyfryngau. Cafodd tri ymateb eu heffeithio gan y camgymeriad hwn. Mae dadansoddiad wedi dangos, fodd bynnag ei fod wedi cael effaith fach iawn.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

C7a: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r gofynion arfaethedig ar gyfer asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau ar gyfer cymhwyster Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

Fel y dangosir yn Siart 11 isod, roedd 60% o ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig ac roedd 40% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Siart 11. Yn dangos yr ymatebion i gwestiwn 7a yr ymgynghoriad ar gymwysterau UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau.



- Nododd un ymatebwr a oedd yn cytuno'n gryf â'n cynnig ei fod yn "hoffi'r ffaith bod Cymru yn cadw elfennau ymchwilio a myfyrio fel rhan o hyn (yn wahanol i Loegr) ond nid wyf yn cytuno y dylid newid y brîff bob blwyddyn".
- Nododd ymatebwr a oedd yn anghytuno'n gryf â'r cynnig "nid oes unrhyw resymau da dros newid y brîff ac mae hyn yn creu anawsterau logistaidd difrifol i ganolfannau ac i athrawon".

Adlewyrchir yr elfennau asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau arfaethedig yn y ddogfen *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau (2016)*[1], gyda'r mân ddiwygiadau canlynol:

- newidiwyd y gofyniad Safon Uwch i'r gofyniad ar gyfer A2
- ar safon UG ac A2, defnyddiwyd 'gwerthuso' yn lle 'myfyrio'
- ar safon UG, defnyddiwyd 'cysyniadau allweddol' yn lle 'cysyniadau damcaniaethol'
- ar safon UG ac A2, defnyddiwyd 'caiff briffiau eu hadolygu'n flynyddol gan y corff dyfarnu' yn lle 'caiff briffiau eu pennu gan y corff dyfarnu a'u hadolygu bob blwyddyn'.

C7b: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y gall y cynhyrchiad cyfryngol fod yn dasg unigol neu'n dasg grŵp ar gyfer cymhwyster Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

Fel y dangosir yn Siart 12 isod, roedd 83% o ymatebwyr yn cytuno'n gryf â'r cynnig ac roedd 17% yn cytuno.



- Nodwyd y canlynol gan ymatebwyr a oedd yn cytuno'n gryf â'r cynnig:
    - "Mae'n hanfodol cynnig yr opsiwn i greu cynyrchiadau clyweledol mewn grwpiau am resymau addysgol a rhesymau logistaidd".
    - "O ystyried bod Cymru yn cynnig ymchwilio a myfyrio hefyd, ceir digon o gyfleoedd i asesu cyfraniadau myfyrwyr unigol at brosiectau clyweledol mewn grwpiau yn gywir".

Adlewyrchir y cynnig yn y ddogfen *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TAG UG a Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau (2016)*[1].

Cymorth ac Adnoddau

Ym mhob un o'n hymgynghoriadau, gwnaethom ofyn y canlynol:

Pa gymorth ac adnoddau y gall fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod mor barod â phosibl i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig yn eich barn chi? Rhowch sylwadau.

Ymhlith pethau eraill, tynnodd y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn sylw at y canlynol:

- yr angen i ddarparu gwerslyfrau ac adnoddau ar-lein
- buddiannau posibl trefnu digwyddiadau DPP a hyfforddiant HMS yn ganolog
- yr angen am bapurau arholiad enghreifftiol a deunyddiau asesu enghreifftiol
- a defnyddioldeb atebion enghreifftiol er mwyn dynodi lefel ddisgwyliedig yr ymateb.

Byddwn yn rhannu'r pwyntiau a godwyd â'r corff dyfarnu, consortia a Llywodraeth Cymru.

Yr effaith ar unigolion â nodweddion gwarchodedig

Ym mhob un o'n hymgynghoriadau, gwnaethom ofyn y cwestiwn canlynol i ymatebwyr:

Nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.

Ar gyfer yr ymgynghoriad ar gymwysterau UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau, ni thynnodd unrhyw ymatebwyr sylw at unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig penodol.

Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at: Ymholiadau Cymwysterau Cymru Adeilad Q2 Lôn Pencarn Imperial Park

Coedkernew

Casnewydd

NP10 8AR

Ymholiadau@cymwysteraucymru.org